***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 24/03/2018. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Adran 86 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

**RHAN 2**

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**PENNOD 5**

CYFFREDINOL

*Cyrsiau addysg uwch a ddarperir gan sefydliadau addysg bellach*

VALID FROM 01/09/2021

**86 Myfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch**

(1) At ddibenion y Rhan hon, nid yw myfyriwr addysg uwch mewn sefydliad yn y sector addysg bellach i gael ei drin fel pe bai wedi ymrestru'n fyfyriwr yn y sefydliad.

(2) Nid yw'r ddyletswydd a osodir ar awdurdod lleol gan adran 68(2) (trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau) yn gymwys i'r graddau y byddai'n gymwys fel arall mewn perthynas â pherson ifanc i'r graddau y mae'r person hwnnw yn fyfyriwr addysg uwch mewn sefydliad yn y sector addysg bellach.

(3) Mae person yn fyfyriwr addysg uwch mewn sefydliad yn y sector addysg bellach os yw'r person yn dilyn cwrs addysg uwch a ddarperir gan y sefydliad ac nad yw'r person hefyd yn cael addysg neu hyfforddiant a ddarperir ganddo.

(4) Pan fo person sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yn cael addysg neu hyfforddiant a ddarperir gan y sefydliad hwnnw, a hefyd yn dilyn cwrs addysg uwch a ddarperir ganddo, mae'r person yn fyfyriwr addysg

*__Statws__ Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 24/03/2018. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Adran 86 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

uwch yn y sefydliad mewn perthynas â'r cwrs addysg uwch (ond mae fel arall i gael ei drin fel pe bai wedi ymrestru'n fyfyriwr yn y sefydliad).

(5) Yn yr adran hon, ystyr "cwrs addysg uwch" yw cwrs o unrhyw ddisgrifiad a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p.40).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 86 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 24/03/2018. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Adran 86 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.